**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**12 Chwefror 2026**

Ym mis Ionawr 2026, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Mae'r adroddiad yn cynnwys tri ar ddeg o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

## Cyflwyniad

Rwyf yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Mae gwaith craffu'r pwyllgor yn chwarae rhan bwysig wrth archwilio'r materion cyfansoddiadol, cyfreithiol a datganoli sy'n deillio o'r Bil hwn.

Er eglurder, mae'r holl gyfeiriadau at gymalau yn yr ymateb hwn yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin, y gellir dod o hyd iddo yng nghyhoeddiadau Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) - Biliau Seneddol - Senedd y DU. Mae'r rhain yn cynnwys y gwelliannau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 3 fel rhai sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yng Nghymru ac y ceisir cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

Nod Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), a gyflwynwyd fel Bil Aelod Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin, yw rhoi dewis i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywyd i ben, yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cymhlethdod y mater hwn a phwysigrwydd sicrhau bod unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn parchu'r setliad datganoli a chyd-destun cyfreithiol penodol Cymru.

Rwyf yn cydnabod yr heriau y mae'r Bil yn eu cyflwyno o ran craffu, yn enwedig o gofio nifer y gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi symud dyddiad y ddadl ar y cynnig cydsyniad Deddfwriaethol i 24 Chwefror i ganiatáu amser ychwanegol i bwyllgorau ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Atodol Rhif 3. Nodaf hefyd ddiddordeb y pwyllgor yn y sail resymegol dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i geisio cydsyniad mewn perthynas â gwelliannau penodol sydd wedi'u cynnwys ym Memorandwm Rhif 3.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu adeiladol parhaus â Llywodraeth y DU, Noddwyr y Bil, a'r Senedd wrth i'r Bil fynd yn ei flaen. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei adroddiad manwl. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion y pwyllgor isod.

## Ymateb i'r 13 o argymhellion

### Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam mae pryderon ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol yn atal gwybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru rhag cael ei darparu mewn perthynas ag ystyried y memoranda hyn, ond nid y 185 o femoranda sy'n ymwneud â 71 o Filiau eraill Llywodraeth y DU a ystyriwyd hyd yma gan y Pwyllgor.

Ymateb: Derbyn

Mae dadansoddiad cyfreithiol wrth wraidd ein hasesiad o ddarpariaethau Bil a allai roi sylw i faterion datganoledig. Fel gyda phob deddfwriaeth, mae'r cyngor cyfreithiol hwnnw'n ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol ac ni ellir ei ddatgelu.

Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod y darpariaethau y mae'r tri memorandwm wedi'u gosod ar eu cyfer yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac y byddent felly yn bodloni'r prawf o dan Reol Sefydlog 29. Rydym o'r farn nad yw gweddill cymalau'r Bil (fel y'u cyflwynwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn bodloni'r prawf hwnnw.

Goblygiadau Ariannol – Dim

### Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 3, bod y gwelliannau i gymalau 47, 49, 50 a 55 o'r Bil (fel y'u dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) yn gofyn am gydsyniad y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.

Ymateb: Derbyn.

Rwyf yn croesawu cytundeb y pwyllgor ag asesiad Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3.

Mae'r gwelliannau arfaethedig gan y Noddwr i gymalau 47, 49, 50 a 55 wedi'u hasesu fel rhai sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yng Nghymru ac felly mae arnynt angen cydsyniad y Senedd o dan Reol Sefydlog 29.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gynghori o ran y canlynol:

i. a yw o'r farn y bydd y pum gwelliant sy'n destun Memorandwm Rhif 3 wedi cael eu hystyried ac wedi bod yn destun pleidlais cyn i'r cynnig cydsyniad gael ei drafod ar 24 Chwefror; ac,
ii. os na, dylai esbonio pam, yn ei farn ef, ei bod yn briodol cynnal dadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â gwelliannau i gymalau yn y Bil cyn i benderfyniad o ran a ddylid cytuno ar y gwelliannau hynny gael ei wneud yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ymateb: Derbyn.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth amserlennu Seneddol bresennol sydd ar gael, ni ellir cadarnhau a fydd Tŷ'r Arglwyddi wedi cwblhau'r gwaith o ystyried y pum gwelliant cyn dadl y Senedd ar 24 Chwefror. Mae amseriad ystyriaeth Tŷ'r Arglwyddi yn dal yn ddarostyngedig i reoli amserlen Senedd y DU, nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth drosto.

Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, mae'n briodol i'r Senedd ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y cam hwn, a fydd yn sicrhau bod ei barn yn cael ei hystyried yn briodol gan yr Arglwyddi yn ystod ei thrafodaethau parhaus yn y pwyllgor.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod craffu yn symud gam yn gam â hynt y Bil drwy Senedd y DU ac yn galluogi'r Aelodau i ystyried y gwelliannau allweddol hynny sydd eisoes wedi'u cyflwyno gan Noddwr y Bil ac sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ddethol dim ond y pum gwelliant o 1,159 a gyflwynwyd i'w cynnwys ym Memorandwm Rhif 3.

Ymateb: Derbyn.

O gofio natur unigryw y Bil Aelod Preifat hwn, ei hynt estynedig bresennol trwy Gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a'r nifer digynsail o welliannau a gyflwynwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi arddel ymagwedd bragmataidd at baratoi'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn.

O dan Reol Sefydlog 29, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno memorandwm mewn perthynas â gwelliannau (anllywodraethol) y cytunir arnynt a gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i gynnal dadansoddiad llawn o'r holl welliannau nad yw Senedd y DU wedi cytuno arnynt eto.

Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei hasesiad manwl ar y gwelliannau allweddol a gyflwynwyd gan Noddwr y Bil a fyddai, os cytunid arnynt, yn gofyn am gydsyniad y Senedd. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i ddarparu'r wybodaeth fwyaf ystyrlon a pherthnasol sydd ar gael i'r Senedd ar hyn o bryd, gan gefnogi craffu a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad ynghylch a yw'r 1,154 o welliannau eraill a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi rhwng 14 Tachwedd 2025 ac 18 Rhagfyr 2025 yn ystyried materion datganoledig ac, os nad ydynt, nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Ymateb: Derbyn.

Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 4, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad manwl o'r gwelliannau allweddol a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi gan Noddwr y Bil hyd at 18 Rhagfyr 2025; yn benodol y gwelliannau hynny i ddarpariaethau sydd eisoes wedi'u cwmpasu gan femoranda cydsyniad

deddfwriaethol, neu a oedd yn cynnig cymalau gyfan gwbl newydd. Nodwyd bod pump o'r rhain yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

O gofio'r nifer eithriadol o uchel o welliannau eraill a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, nid yw wedi bod yn ymarferol nac yn gymesur cynnal dadansoddiad llawn o bob gwelliant unigol ar yr adeg hon. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei hasesiad manwl ar welliannau arfaethedig y Noddwr tra'n parhau i fonitro cynnydd cyffredinol y Bil drwy'r Senedd.

Os bydd Tŷ'r Arglwyddi ystyried unrhyw rai o'r 1,154 o welliannau eraill ac yn cytuno arnynt, ac os byddant yn cael eu hasesu fel rhai sy'n bodloni'r prawf yn RhS29, byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai'r goblygiadau pe bai unrhyw un o'r 1,154 o welliannau hynny yn ymwneud â materion datganoledig ac yn cael eu pasio'n gyfraith heb gael cydsyniad y Senedd.

Ymateb: Derbyn.

Pe bai unrhyw un o'r 1,154 o welliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac yn cael eu pasio'n gyfraith wedyn, byddai'r darpariaethau hynny'n cael effaith gyfreithiol yng Nghymru yn yr un modd ag unrhyw un o ddarpariaethau Deddf gan y DU, ni waeth a oedd y Senedd wedi rhoi cydsyniad neu beidio.

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Senedd ar ei safbwynt.

Yn y pen draw, mater i Senedd y DU yw penderfynu a ddylid deddfu, ni waeth a oes cydsyniad wedi'i roi neu beidio. Mae'r sefyllfa gyfansoddiadol honno yn gymwys yn yr un modd i welliannau a wnaed yn ystod hynt Bil gan y DU.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud asesiad ynghylch a yw’r 62 gwelliant arall a gyflwynwyd i gymalau 47, 49, 50 a 55 o’r Bil (fel y’u dygwyd o Dŷ’r Cyffredin) yn ystyried materion datganoledig ac, os nad ydynt, nodi’r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Ymateb: Derbyn.

Fel yr amlinellwyd yn fy ymatebion blaenorol, rhoddodd Llywodraeth Cymru flaenoriaeth i asesiad manwl o welliannau allweddol a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi gan Noddwr y Bil hyd at 18 Rhagfyr 2025, yn benodol y gwelliannau hynny a fyddai'n diwygio'r darpariaethau a gwmpesir eisoes gan femoranda cydsyniad deddfwriaethol neu a fyddai'n cyflwyno cymalau gyfan gwbl newydd. Nodwyd bod pump o'r rhain yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

O gofio maint y gwelliannau eraill a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi, gan gynnwys y 62 o welliannau sy'n weddill i gymalau 47, 49, 50 a 55, nid yw wedi bod yn ymarferol nac yn gymesur asesu pob un cyn unrhyw benderfyniad. Os bydd Senedd y DU yn cytuno ar unrhyw rai o'r gwelliannau hyn a'r gwelliannau wedyn yn cael eu hasesu fel rhai sy'n bodloni'r prawf yn RhS29, caiff memoranda cydsyniad deddfwriaethol pellach eu cyflwyno.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 8**

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Os, ym marn Llywodraeth Cymru, mae unrhyw un o’r 62 gwelliant ychwanegol hyn i gymalau 47, 49, 50 a 55 o’r Bil yn ystyried materion datganoledig, ac y’u derbynnir wedi hynny, dylai’r Ysgrifennydd Cabinet esbonio’r canlynol:

i. effaith y penderfyniad i dderbyn y gwelliannau hynny ar y cydsyniad a geisir ar gyfer yr un cymalau hynny drwy Femorandwm Rhif 3;
ii. beth fyddai’r canlyniad pe bai cydsyniad yn cael ei roi i’r gwelliannau i gymalau y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 3 ond pe na chytunid ar y gwelliannau hynny wedi hynny, tra cytunid ar welliannau eraill i’r cymalau hynny sy’n ymwneud â materion datganoledig ond nad ydynt yn destun Memorandwm Rhif 3;
iii. o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mhwynt bwled ii, yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai’r Senedd wedi cydsynio iddo.

Ymateb: Derbyn.

Fel y nodwyd yn fy ymatebion i Argymhellion 4, 5 a 7, rhoddodd Llywodraeth Cymru flaenoriaeth i asesiad manwl o welliannau allweddol a gyflwynwyd gan Noddwr y Bil.

Os cytunir ar unrhyw welliannau ychwanegol i gymalau 47, 49, 50 neu 55 gan Dŷ'r Arglwyddi ac os cânt eu hasesu fel rhai sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, byddai memoranda atodol pellach yn cael eu cyflwyno.

Pe bai'r Senedd yn rhoi cydsyniad i'r gwelliannau a nodir ym Memorandwm Rhif 3, ond pe na chytunid ar y gwelliannau hynny wedyn yn Nhŷ'r Arglwyddi tra cytunid ar welliannau eraill i'r un cymalau – sydd wedyn yn cael eu hasesu gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, ni fyddai'r cydsyniad hwnnw'n ymestyn i'r gwelliannau newydd.

Mae cydsyniad yn gymwys i'r darpariaethau a nodwyd yn y memoranda sydd gerbron y Senedd yn unig.

O dan yr amgylchiadau hynny, byddai'r Senedd wedi cydsynio i'r gwelliannau a gynhwysir ym Memorandwm Rhif 3 yn unig.

Byddai unrhyw welliannau ychwanegol sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yn gofyn am femoranda pellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Os nad yw wedi'i gynnwys yn benodol yn y cynnig, er mwyn sicrhau bod y Senedd yn glir ynghylch yr hyn y gofynnir iddi gydsynio iddo, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet restru'r cymalau, a'r gwelliannau i gymalau yn y Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin) y ceisir cydsyniad ar eu cyfer.

Ymateb: Derbyn.

Er eglurder, y cymalau a'r gwelliannau y ceisir cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yw'r rhai a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhifau 1, 2 a 3.

Y rhain yw:

- Cymal 40
- Cymal 42(1), (2), (5) a (6)
- Gwelliant 784 a gyflwynwyd i Gymal 47
- Cymal 49

- Gwelliant 824 a gyflwynwyd i Gymal 50
- Cymal 51 (1), (2), (3), (5), (6) a (7)
- Cymal 54(1), (2), (5) a (6)
- Gwelliant 877A a gyflwynwyd i Gymal 55
- Cymal 58(5), (7) ac (8)

Mae'r rhifau'r cymalau hyn yn dod o'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd o Dŷ'r Cyffredin: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

Dyma'r darpariaethau sy'n dod o fewn cwmpas y cynnig cydsyniad deddfwriaethol sydd gerbron y Senedd.

Byddaf yn sicrhau bod y Cynnig yn glir o ran yr hyn y gofynnir i'r Senedd bleidleisio arno.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai'r goblygiadau i farw â chymorth yng Nghymru pe bai'r Senedd yn cydsynio yn unol â'r memoranda, a phe na bai adran 42 o'r Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin ac os caiff ei ddeddfu) yn cael ei gychwyn wedi hynny gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Ni fyddai'r swyddogaethau statudol a roddir i Weinidogion Cymru gan adran 42(1) a (2) yn arferadwy oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cychwyn y darpariaethau hynny. Yn ymarferol, byddai peidio â chychwyn y darpariaethau hynny yn golygu na fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu rheoleiddio ynghylch marw â chymorth yng Nghymru o dan y Ddeddf hon.

Gan nad yw'r model ar gyfer gwasanaethau marw â chymorth wedi'i benderfynu eto, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd nodi goblygiadau llawn peidio â chychwyn y darpariaethau. Os caiff y Bil hwn ei basio gan y Senedd, mater i Lywodraeth nesaf Cymru rhoi ystyriaeth bellach i'r materion hyn.

Mae dyletswydd oblygedig i gadw cychwyn deddfwriaeth sylfaenol dan adolygiad.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth fyddai'r goblygiadau i farw â chymorth yng Nghymru pe bai'r Senedd yn gwrthod cydsynio i'r Bil yn unol â'r memoranda.

Ymateb: Derbyn

Pe bai'r Senedd yn dal cydsyniad i'r darpariaethau a nodir yn y memoranda yn ôl, gallai Senedd y DU barhau i ddewis bwrw ymlaen â'r Bil, gan gynnwys y darpariaethau hynny sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig yng Nghymru. Yn yr achos hwnnw, gallai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu o fewn fframwaith nad yw wedi'i gymeradwyo gan y Senedd, gan gymryd i ystyriaeth y dyletswyddau, y swyddogaethau a'r oruchwyliaeth reoleiddiol a sefydlir gan y Bil.

Fel arall, gallai Senedd y DU ddewis dileu rhai o'r darpariaethau hyn o'r Bil, gan gynnwys swyddogaethau Gweinidogion Cymru a darpariaethau a fyddai fel arall yn darparu ar gyfer cyfranogiad y Senedd. Er enghraifft, gallai hyn arwain at beidio â darparu pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio ynghylch marw â chymorth yng Nghymru o dan y Ddeddf hon. Gallai darparwyr annibynnol gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau'r GIG gael eu sefydlu yng Nghymru o hyd oherwydd y newid yn y gyfraith droseddol yn dilyn cychwyn darpariaethau eraill y Ddeddf.

Er bod y rhain yn oblygiadau posibl, byddai'r canlyniad terfynol yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan Senedd y DU ac felly ni ellir ei ddatgan gyda sicrwydd ar hyn o bryd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Wrth ymateb i argymhellion 10 ac 11, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu esboniadau drwy gyfeirio at wasanaethau'r GIG a gwasanaethau nad ydynt yn rhan o'r GIG.

Ymateb: Gwrthod.

Nodaf y cais am esboniadau drwy gyfeirio at wasanaethau'r GIG a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau'r GIG. Er hynny, gan nad yw'r model ar gyfer gwasanaethau marw â chymorth yng Nghymru wedi'i benderfynu eto, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd ddarparu esboniadau manwl drwy gyfeirio at fathau penodol o ddarpariaeth gwasanaethau.

Os caiff y Bil ei basio gan Senedd y DU, byddai'r goblygiadau ymarferol ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth gwasanaethau yn dibynnu ar y model gweithredol a fyddai'n cael ei fabwysiadu i Gymru. Mater i'w ystyried gan Lywodraeth nesaf Cymru fyddai'r gwaith hwn, wedi'i lywio gan gwmpas unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru, gan gynnwys pwerau gwneud rheoliadau hynny o dan gymal 42.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Argymhelliad 13**

Mae’r Pwyllgor yn argymell:

Dylid darparu ymatebion i’r argymhellion hyn i’r Pwyllgor cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na dydd Mercher 11 Chwefror 2026.

Ymateb: Derbyn.

Amgaeaf y ddogfen hon fel ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol – Dim